



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Canllawiau a Pholisi Diwygiedig ar Brynu Gorfodol yng Nghymru

Cylchlythyr newydd Llywodraeth Cymru ar y Weithdrefn Prynu Gorfodol yng Nghymru (gan gynnwys 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru, 2019)) a'r polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol.

Dyddiad cyhoeddi: 9 Hydref 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 24 Ionawr 2020

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar:

- gylchlythyr newydd sy'n cynnwys canllawiau diwygiedig sydd i'w defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a chyrff cyhoeddus eraill wrth wneud gorchmynion prynu gorfodol;
- 'Rheolau Crichel Down' (fersiwn Cymru 2019) sy'n rhoi arweiniad ar y trefniadau ar gyfer cynnig tir dros ben o eiddo'r llywodraeth, a gaffaelwyd drwy orfodaeth, neu o dan fygythiad gorfodaeth, yn ôl i gynberchenogion, eu holynwyr, neu denantiaid meddiannol; a
- polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig i gryfhau'r gefnogaeth i awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer defnyddio pwerau prynu gorfodol i hwyluso ailddatblygu tir ac adeiladau er budd y cyhoedd.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 24 Ionawr 2020.

Gallwch ymateb drwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

E-bost:

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i: planconsultations-d@llyw.cymru

A fydddech cystal â chynnwys 'Canllawiau a Pholisi Newydd ar Brynu Gorfodol – WG37651' yn y llinell destun.

Post:

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Ymgynghoriad ar Brynu Gorfodol
Y Gangen Penderfyniadau.
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10)
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Llawlyfr Rheoli Datblygu Adran 12 Atodiad: Dyfarnu Costau
<https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/170505-section-12-annex-award-of-costs-cy.pdf>

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd
Hanesyddol
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan24-amgylchedd-hanesyddol.pdf>

**Manylion
Cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn,
cysylltwch ag:

Andrew Ward
andrew.ward@llyw.cymru
03000 259340

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gcontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Diben yr ymgynghoriad

1. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod pwerau prynu gorfodol yn adnodd pwysig i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) a chyrff cyhoeddus eraill fel modd i gasglu ynghyd y tir sydd ei angen arnynt i helpu i sicrhau newid amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Os cânt eu defnyddio'n briodol, gallant gyfrannu tuag at adfywio effeithiol ac effeithlon, ailfywiogi cymunedau, creu lleoedd a hyrwyddo busnesau, gan arwain at welliannau o ran ansawdd bywyd.
2. Mae'r sail ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer prynu gorfodol yn gymhleth ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella'r system prynu gorfodol i'w gwneud yn decach ac yn fwy effeithlon a dealladwy.
3. Cyflwynwyd diwygiadau mawr i symleiddio a moderneiddio'r system prynu gorfodol yng Nghymru drwy Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 a Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017.
4. Ym mis Ebrill 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddiwygiadau technegol pellach i'r broses prynu gorfodol yng Nghymru.
<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-newidiadau-i-gymeradwyo-gwaith-datblygur-seilwaith.pdf>.
Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn: <https://llyw.cymru/newidiadau-i-gymeradwyo-gwaith-datblygur-seilwaith>.
5. Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar
 - Gylchlythyr newydd a fydd yn rhoi arweiniad ar y diwygiadau diweddar i'r system prynu gorfodol yng Nghymru ac, yn fwy cyffredinol, gyngor diwygiedig ar y ffordd y dylid cymhwyso'r gweithdrefnau cywir a'r gofynion statudol a gweinyddol.
 - Canllawiau diwygiedig ar y trefniadau ar gyfer cynnig tir dros ben o eiddo'r llywodraeth a gaffaelwyd drwy orfodaeth, neu o dan fygythiad gorfodaeth, yn ôl i gyn-berchenogion, eu holynwyr, neu denantiaid meddiannol (a elwir yn 'Rheolau Crichel Down').
 - Polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig i gryfhau'r gefnogaeth i awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer defnyddio pwerau prynu gorfodol i hwyluso ailddatblygu tir ac adeiladau er budd y cyhoedd.

Beth yw'r prif faterion?

6. Mae nifer o ddiwygiadau mawr wedi cael eu cyflwyno i'r system prynu gorfodol yng Nghymru ers i ganllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar brynu gorfodol, sef *Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAFWC): 14/2004 Cylchlythyr Diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol* gael eu cyhoeddi yn 2004.
7. Ym marn ASCLlau a rhanddeiliaid eraill mae diffyg canllawiau cyfredol gan Lywodraeth Cymru ar brynu gorfodol yn rhwystri i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol. Yr allwedd i wella hyder a dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid y system prynu gorfodol yng Nghymru yw sicrhau bod canllawiau canolog, cywir gan Lywodraeth Cymru ar waith.

Hefyd, rhaid wrth bolisi cynllunio cenedlaethol sy'n cefnogi ACLlau i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol i ailddatblygu tir ac adeiladau er budd y cyhoedd.

8. Bydd y canllawiau manwl yn y Cylchlythyr diwygiedig, newydd ar y broses prynu gorfodol yng Nghymru yn helpu ACLlau a chyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio eu pwerau prynu gorfodol yn y ffordd orau bosibl a sicrhau bod gorchmynion prynu gorfodol yn cael eu gweithredu'n gyflym a heb ddiffygion.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

9. Yn sail i gaffael tir neu hawliau drwy ddefnyddio pwerau prynu gorfodol y mae'r gweithdrefnau a amlinellir yn Neddf Prynu Gorfodol 1965 ("Deddf 1965") a Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981").

Cylchlythyr

10. Ceir canllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar brynu gorfodol yng *Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAFWC): 14/2004 Cylchlythyr Diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol*. Ers iddo gael ei gyhoeddi yn 2004, mae Deddf 1965 a Deddf 1981 wedi cael eu diwygio'n sylweddol er mwyn symleiddio a moderneiddio'r gweithdrefnau prynu gorfodol. Mae cyhoeddi Cylchlythyr cyfredol, newydd ar y broses prynu gorfodol yn hanfodol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r system prynu gorfodol yng Nghymru.
11. Y fersiwn o 'Reolau Crichel Down' a weithredir ar hyn o bryd yng Nghymru yw'r un a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd a'r Swyddfa Gymreig gynt ar 30 Hydref 1992.

Polisi cynllunio cenedlaethol

12. Dywed paragraff 3.53 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) y caiff ACLlau ddefnyddio'u pwerau prynu gorfodol i ddatgloi potensial datblygu safleoedd o dan amgylchiadau eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi defnydd ACLlau o'u pwerau prynu gorfodol i gaffael tir ac adeiladau segur er budd y cyhoedd ac mae wedi ymrwymo i symleiddio'r drefn ar gyfer defnyddio'r pwerau hynny. Yn hynny o beth, mae paragraff 3.53 PCC yn cael ei ystyried ar gyfer ei adolygu.

Beth rydym yn ei gynnig?

Cylchlythyr

13. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Cylchlythyr newydd i adlewyrchu'r diwygiadau i'r gweithdrefnau prynu gorfodol yng Nghymru drwy'r canlynol:
 - Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;
 - Deddf Lleoliaeth 2011;
 - Deddf Twf a Seilwaith 2013;
 - Deddf Tai a Chynllunio 2016;
 - Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017.

14. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu moderneiddio'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau prynu gorfodol a sylwadau ysgrifenedig yng Nghymru drwy wneud nifer o ddiwygiadau technegol i offerynnau statudol sy'n bodoli eisoes. Mae'r Cylchlythyr newydd yn rhoi cyngor ar y diwygiadau technegol hyn.
15. Mae'r Cylchlythyr newydd hefyd yn cynnwys 'Rheolau Crichel Down' diwygiedig i Gymru.
16. Wrth i'r gweithdrefnau prynu gorfodol yng Nghymru gael eu diwygio yn y dyfodol caiff y Cylchlythyr ei ddiweddarau er mwyn rhoi canllawiau ychwanegol a chyfeirio at wybodaeth.

Polisi cynllunio cenedlaethol

17. Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio PCC i gryfhau'r gefnogaeth i ACLI ddefnyddio'u pwerau cynllunio lleol i gaffael tir ac adeiladau segur er budd y cyhoedd. Trwy ddiwygio'r polisi cynllunio cenedlaethol i gefnogi'r defnydd priodol o bwerau prynu gorfodol, rhoddir cyfiawnhad arall hefyd i ACLlau gynnal Gorchymyn Prynu Gorfodol.
18. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried hefyd a ddylai ACLlau fabwysiadu polisïau cyffredinol sy'n disgrifio'r meini prawf y byddent yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylent arfer eu pwerau prynu gorfodol neu beidio. Byddai hynny'n symleiddio'r broses prynu gorfodol ac yn rhoi mwy o eglurder a chysondeb i ddatblygwyr, perchenogion tir a chymunedau ynghylch pryd y gallai ACLI fod yn barod i arfer ei bwerau statudol. Gallai hynny sbarduno mwy o gydweithio rhwng ACLlau, datblygwyr a chymunedau ar safleoedd sy'n rhy fach o bosibl i'w hystyried ar gyfer eu dyrannu mewn Cynllun Datblygu Lleol ond a fyddai fel arall yn safle tai cynaliadwy.

Pa newidiadau penodol rydym yn eu cynnig?

Cylchlythyr

19. Mae Rhan 1 o'r Cylchlythyr newydd yn rhoi trosolwg o chwe cham y broses prynu gorfodol:
 - Cam 1 – Dewis y pŵer prynu gorfodol cywir, h.y. ystyriaethau cyffredinol y dylai ACLlau a chyrff cyhoeddus eraill roi sylw iddynt wrth ystyried p'un a ddylent ddefnyddio eu pwerau prynu gorfodol.
 - Cam 2 – Y cyfiawnhad dros wneud gorchymyn prynu gorfodol, h.y. y materion y dylai ACLlau a chyrff cyhoeddus eraill eu hystyried wrth gyfiawnhau defnyddio eu pwerau prynu gorfodol a llunio 'achos cymhellol'.
 - Cam 3 – Paratoi a gwneud gorchymyn prynu gorfodol, h.y. y gweithdrefnau cywir i'w dilyn a'r ddogfennaeth y dylid ei chyflwyno ar y cyd â gorchymyn wrth ei gyflwyno er mwyn i Weinidogion Cymru ei gadarnhau.

- Cam 4 – Ystyried gorchymyn prynu gorfodol, h.y. meini prawf ar gyfer dirprwyio penderfyniadau i Arolygydd; gallu ACLlau a chyrff cyhoeddus eraill i gadarnhau eu gorchymynion prynu gorfodol eu hunain; a sut y caiff gwrthwynebiadau eu hystyried e.e. drwy weithdrefn ymchwiliad neu weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.
 - Cam 5 – Gweithredu gorchymyn prynu gorfodol, h.y. y gofynion o ran hysbysiadau o gadarnhad a throsolwg o'r hysbysiad i drafod telerau a gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer datganiadau breinio.
 - Cam 6 – Digolledu, h.y. y sail dros gyfrifo'r swm digolledu pan gaiff tir ei gymryd neu pan na chaiff ei gymryd.
20. Mae Rhan 2 o'r Cylchlythyr newydd yn rhoi canllawiau manwl ar y pwerau galluogi prynu gorfodol a ddefnyddir amlaf. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ar bŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir yn orfodol.
 21. Mae Rhan 3 yn trafod rhai o'r materion gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â phrosesu gorchymynion prynu gorfodol. Mae hefyd yn rhoi rhestr wirio o'r dogfennau y dylid eu cyflwyno ar y cyd â gorchymyn sy'n cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt ei gadarnhau.
 22. Mae Rhan 4 yn rhoi trosolwg o'r broses prynu gorfodol ar gyfer gorchymynion prynu gorfodol anweinidogol ar ffurf diagram.
 23. Mae Rhan 5 yn cynnwys 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2019)' ac yn rhoi'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwaredu tir dros ben o eiddo'r llywodraeth a'r rhwymedigaeth i gynnig y tir yn ôl i gyn-berchenogion neu eu holynwyr.
 24. Mae'r Cylchlythyr newydd wedi'i anelu at ACLlau a chyrff cyhoeddus eraill megis ymgymherwyr statudol sy'n meddu ar bwerau prynu gorfodol.

Polisi cynllunio cenedlaethol

25. Rydym yn cynnig diwygio paragraff 3.53 PCC i gryfhau'r gefnogaeth i ACL li gaffael tir ac adeiladau trwy orfodaeth fel a ganlyn:

“3.53 Anogir awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio ymagwedd ddadrisgio i ddatgloi potensial datblygu safleoedd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r awdurdod brynu tir er mwyn hwyluso ailddatblygiad. Os yn bosibl, dylid gwneud hyn â chytundeb y tiffeddiannwr ond lle na ellir dod i gytundeb, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt. Dylai hynny gynnwys, lle bo angen, defnyddio pwerau prynu gorfodol lle byddai o fudd i'r cyhoedd iddynt gyflwyno tir a/neu adeiladau i ddiwallu anghenion datblygu yn eu hardal a/neu i sicrhau canlyniadau datblygu gwell.”
26. Rydyn ni'n ystyried hefyd a ddylai ACLlau fabwysiadu polisiâu cyffredinol sy'n disgrifio'r meini prawf y byddent yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylent arfer eu pwerau prynu gorfodol neu beidio.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

27. Nodir cwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn isod. Os hoffech ymateb cwblhewch y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn Atodiad B.

Cylchlythyr

C1	A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar y gwahanol gamau o'r broses prynu gorfodol yn Rhan 1 o'r Cylchlythyr yn glir? Os nad ydych, pam?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Sylwadau:				

C2	Yn Rhan 1 o'r Cylchlythyr rydym wedi cynnwys enghreifftiau o arfer gorau o ran codi a chynnal hysbysiadau safle. Byddem yn croesawu enghreifftiau gennych chi o arferion gorau eraill yn y broses o wneud gorchmynion prynu gorfodol. Defnyddiwch y lle isod.			
Sylwadau:				

C3	Ydych chi'n cytuno bod templed y ffurflen hawlio enghreifftiol a ddangosir yn Rhan 1 y Cylchlythyr yn gofyn am yr wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i: (a) Hawlio iawndal am dir a gafodd ei gaffael trwy orfodaeth a/neu y cymerwyd meddiant dros dro arno; neu (b) Cais am ragdal iawndal?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Sylwadau:				

C4	A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar bwerau galluogi prynu gorfodol yn Rhan 2 o'r Cylchlythyr yn glir? Os nad ydych, pam?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Sylwadau:				

C5	A ydych yn cytuno bod y materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â gorchmynion prynu gorfodol wedi'u nodi'n glir yn Rhan 3 o'r Cylchlythyr? Os nad ydych, pam?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Sylwadau:				

C6	A ydych yn cytuno bod y trosolwg o'r broses prynu gorfodol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol anweinidogol yn Rhan 4 o'r Cylchlythyr yn glir i awdurdodau sy'n caffael a gwrthwynebwyr sy'n weddill? Os nad ydych, pam?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Sylwadau:				

C7	A ydych yn cytuno bod y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwaredu tir dros ben o eiddo'r llywodraeth a nodir yn Rhan 5 o'r Cylchlythyr ('Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019)) yn glir i gyn-berchenogon tir / eu holynwyr, awdurdodau lleol a chyrff statudol. Os nad ydych, pam?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Sylwadau:				

Polisi cynllunio cenedlaethol

C8	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio paragraff 3.53 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) a ddisgrifir ym mharagraff 25 y ddogfen 'Crynodeb Gweithredol o'r Ymgynghoriad'.	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Sylwadau:				

C9	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ACLlau fabwysiadu polisiau cyffredinol sy'n disgrifio'r meini prawf y byddant yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylent arfer eu pwerau prynu gorfodol neu beidio?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw
		☐	☐	☐
Comments:				

C10	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag isod i wneud sylwadau os gwelwch yn dda.
Sylwadau:	

Cais am dystiolaeth

28. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio sylwadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar y canlynol:

- astudiaethau achos o'r defnydd llwyddiannus o bwerau prynu gorfodol er mwyn cyflwyno cynlluniau adfywio a arweinir gan dai;
- lle y gellid gwneud newidiadau o bosibl i'r system prynu gorfodol er mwyn gwella'r ffordd y caiff cynlluniau caffael gorfodol a arweinir gan dai eu cyflwyno.

29. Os hoffech ymateb cwblhewch y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn Atodiad B.

C11	Hoffem gael gwybod am eich astudiaethau achos lle mae pwerau prynu gorfodol wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i gyflwyno cynlluniau adfywio a arweinir gan dai. Defnyddiwch y lle isod.
Sylwadau:	

C12	Byddem yn croesawu eich syniadau ynghylch ble y gellid gwneud newidiadau o bosibl i'r system prynu gorfodol, yn eich barn chi, er mwyn gwella'r ffordd y caiff cynlluniau caffael gorfodol a arweinir gan dai eu cyflwyno. Defnyddiwch y lle isod.
Sylwadau:	